Pris: 50c

Papur Pawb

Hydref 2017 Rhif 432

Y criw yn dathlu gyda diod o mygiau'r Papur Pawb ar gopa'r Wyddfa

Tri chopa - Tair gwlad - Tri diwrnod!!! - tud 7

tud 3 Pobl a Phethe

tud 4, 5 Ysgol Tal-y-bont

tud 11 Diwrnod Agored

tud 12 Chwaraeon

Cymuned yn dod at ei gilydd

Cafwyd ymdeimlad o hanes a dechreuad newydd wrth i Huw a Sue Lewis dorri'r ruban i agor adeilad newydd Cletwr ar fore dydd Iau 28ain o Fedi. Yn dilyn wythnos o fwrlwm wrth symud o'r hen adeilad i'r newydd gyda staff a gwirfoddolwyr, hen ac ifanc, roedd y cydweithio wedi sicrhau agoriad llwyddiannus.

Adeiladwyd adeilad Clettwr gwreiddiol gan dad Huw Lewis, yn ôl yn y 1960au ac roedd yn rhan bwysig o fywyd yr ardal tan 2010. Hyfryd oedd gweld John ac Ann Davies o 'T.J. Davies Jeweller' – Aberystwyth ymhlith y gwahoddedigion. Nhw oedd cwsmeriaid cyntaf y caffi. Dathlon nhw eu pen-blwydd priodas aur yn ddiweddar ac roedd ganddynt atgofion melys o'u dét cyntaf yn Clettwr dros 50 mlynedd yn ôl.

Huw a Sue Lewis

Fel llawer o syniadau da, yn y dafarn leol y datblygodd y syniad o sefydlu grŵp i ailagor y siop. Agorwyd Cletwr fel busnes cymunedol yn 2013. Mae'r adeilad newydd yn esiampl arbennig o'r hyn mae cymuned ymroddgar yn medru cyflawni. Defnyddiwyd is-gontractwyr lleol er mwyn adeiladu gan ddefnyddio deunyddiau lleol lle'n bosib i greu adeilad cynaladwy i'r gymuned am y dyfodol. Yn y misoedd nesaf bydd gwaith yn parhau wrth i'r maes parcio newydd gael ei adeiladu a'r tirweddu cael ei chwblhau.

Nodwyd bod dal cyfle i ymuno â'r tîm o wirfoddolwyr. Mae'n gyfle gwych i gwrdd â phobl, gwneud ffrindiau ac i ddysgu sgiliau newydd.

Roedd tîm Cletwr eisiau diolch i bawb am eu cymorth parod dros y blynyddoedd diwethaf, ond yn arbennig yn ystod symud i'r adeilad newydd. Roedd yr ymateb yn anhygoel yn dilyn galwad am gymorth ac mae gan yr adeilad newydd ymdeimlad braf o ysbryd cymunedol.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	**(01970) 832560**
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygydd y mis	
	GOHEBYDDION LLEOL	
Tal-y-bont:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	**832592**
	Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	**832438**
Maes-y-deri:	Karren Roberts	**07800 806578**
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	**832498**
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	**832566**
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	**832230**
Tre'r-ddôl:	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	**(01654) 781260**
	Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl	**832028**
Eglwysfach/Ffwrnais:	Swydd wag	
Rhwydweithiau cymdeithasol:	Ceri Morgan	
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	**832203**
Is-gadeirydd:	Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont	**832697**
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	**832344**
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	**832093**
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	**832448**
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	**832076**
Plygu'r Papur:	Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAEG

Llythyron

Lletŷ'r Bugail
Tal-y-bont

Daeth gryn dipyn o anrhydedd i fi eleni pan gefais fy newis i fod yn Llywydd Cymdeithas Gwartheg Duon Cymru. Pleser o'r mwyaf oedd cynnal diwrnod agored yn Nhynygraig ar y 9fed o Fedi, a gwahodd aelodau a ffrindiau'r gymdeithas. Cafwyd prynhawn hyfryd yng nghanol cyfnod gwlyb iawn, a'r niwl wedi clirio. Daeth oddeutu 300 o bobl i'r dydd agored. Aed o amgylch y fferm mewn 10 trelar, o Dynygraig i Gaer Arglwyddes ac yn ôl dros fanc Tynygraig, a chafwyd te i bawb ar ôl cyrraedd yn ôl.

Rwyf am ddiolch i bawb fu'n cynorthwyo i wneud y diwrnod mor llwyddiannus. Yn gyntaf i Alan Williams, Gwarcwm Isaf am fagu a phesgi eidion du Cymreig ar gyfer y bwyd, ac i Will Lloyd, Machynlleth am ei baratoi, ac i Heath am ei goginio, cig a fu cymaint o ganmoliaeth iddo gan bawb.

Yn ail diolch am y llu cymdogion a fu mor barod mewn unrhyw ffordd i wneud y diwrnod mor llwyddiannus, yn cynnwys y rhai fu'n benthyg a gyrru'r tractors a'r trelars ar hyd y ffordd. Yr oedd hyn yn dangos bod cymdeithas amaethyddol gref yn dal yn bodoli.

Yn drydydd, diolch i bwyllgor y Sioe a phwyllgor y Neuadd Goffa am fod mor barod i roi benthyg unrhyw beth ar gyfer y diwrnod.

Ac yn bedwerydd, diolch i bawb gan gynnwys Ann a'r plant a'r wyrion i gyd a weithiodd mor galed i baratoi'r lle ac i bawb gyfrannodd gacennau ar gyfer y te ac i wneud y diwrnod yn un bythgofiadwy.

Gwilym Jenkins



Dyddiadur

HYDREF

15 **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu. Diolchgarwch yr Ysgol Sul
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Terry Edwards
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gŵyl Diolchgarwch Dwyieithog
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Gwasanaeth o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf, Parch Mark Ansell
Cletwr: Tro Ffotograffiaeth Ynys-las gyda Jean Napier, 10-1
Cletwr: Stori a Brechdan Dewch i brofi'r Cletwr newydd 3-4.30

16 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** Banc Bwyd Aberystwyth (Mary Platt)

20 **Sesiwn Nos Wener** Alys Williams a'r Band, 8 o'r gloch yn Y Llew Du

21 **Noson yng nghwmni John ac Alun a Wil Tân** 8 Llety Parc, Aberystwyth. Tocynnau £10. Elw at elusen Beiciau Gwaed Cymru

Y Cynganeddion

Gwersi cynganeddu i ddechreuwyr yn cychwyn yn y Llew Du Tal-y-bont Nos Fercher 8 Tachwedd am 8pm. Am ragor o wybodaeth e-bostiwch **gwenalltllwydifan@gmail.com**

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

22 **Bethel** 10 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 5 Beti Griffiths
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Cymraeg

24 **Cletwr: Sgwrs gan FUW** 'Ffermio yn yr ardal ddoe, heddiw a fory' 7.30-9

26 **Cletwr: Briffio Gwirfoddolwyr y Parti Tân Gwyllt** 7-8

28 **Cletwr: Llusernau Bwganllyd, Dwylo Sombi a Cherfio Pwmpenni** 2.30-4.30

29 **Bethel** 10 Oedfa Undebol ym Methel
Nasareth 10 Uno yn Methel
Rehoboth 2 Gwyn Davies
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Cymraeg
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyrol Weddi
Cletwr: Dreigiau Tân! 3-5

31 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 7.30 Llanfach

TACHWEDD

3 **Cletwr: Parti Tân Gwyllt Cymunedol** 6.30-8

5 **Bethel** 10 Uno yn Rehoboth
Nasareth 10 R. H. Lewis (C)
Rehoboth 10 Gweinidog
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid

7 **Sefydliad y Merched Taliesin** *Beetle Drive* yn y Wildfowler

12 **Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 5 Uno yn Nasareth

14 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'O'r Berriw i'r Bryniau' (Watcyn James)

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

STOMP LLYFRAU: LLYFR Y FLWYDDYN
7.30, nos Wener, 13 Hydref
Bydd 9 o bobl yn ceisio perswadio'r gynulleidfa i bleidleisio dros ei ddewis ef/hi o Lyfr y Flwyddyn. Pa lyfr daw i'r brig tybed? Mynediad: £3

FFAIR AML-DDIWYLLIANNOL
11.30-2.30, Sadwrn, 21 Hydref
Ar ddechrau Wythnos Un Byd, cyfle i ddathlu amrywiaeth ac i brofi rhai o'r diwylliannau gwahanol sy'n rhan o'n cymuned – bwyd, cerddoriaeth, dawnsio, a mwy! Mynediad: £3 (yn cynnwys powlenaid o gawl neu fwyd Indiaidd). Trefnir gan Morlan a Mind Aber. Elw at Mind Aber.

morlan.cymru
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; post@morlan.cymru

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Helen, Rhian a Ceri, gyda Ceri'n dylunio.

Golygyddion mis Tachwedd fydd Phil a Megan (gwynionydd@btinternet.com). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 3 Tachwedd a bydd y papur ar werth ar 10 Tachwedd.

Pobl a Phethe

Mynd a dod
Pob dymuniad da i Tony a Dorothy Green, Pantglas, Tal-y-bont sydd wedi symud i Gaerfyrddin i fod yn agosach at eu merch.

Croeso i Lea Sedgwick sy'n dod i fyw i'r pentref. Mae Lea yn gweithio'n rhan amser yn Garej Davmor wedi blynyddoedd lawer o wasanaeth yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Lynwen a Dylan Morgan, Pentrebach ar enedigaeth mab bach arall, Tomos Ceulan, brawd i Alaw a Daniel.

Llongyfarchiadau i Barri Southgate a Jadie ar enedigaeth merch fach, Nellie Sian, wyres i Johnny a Maria a nith i Lisa.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Eric Roberts, Maes y Deri sydd wedi colli chwaer o Corris.

Hefyd cydymdeimlwn â Myfanwy James, Bryn Eglur sydd wedi colli brawd yng nghyfraith, ewythr i Siân a Lynwen a pherthynas i Eurlys Jones, Eurfan.

Gwellhad buan
Dymunwn wellhad buan i Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ysbyty Treforus yn ddiweddar.

Hefyd i Ieuan Morgan, Maes y Felin, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ysbyty Singleton, Abertawe.

I'r Coleg
Dymuniadau gorau i bawb sy'n cychwyn ar gyfnod newydd a chyffrous yn y coleg. Yn eu plith mae Mari Lewis, Yr Hen Siop 'Sgidiau, Geraint Howard, Stryd Birkenhead, sy'n astudio yng Nghaerdydd a Medi Evans, Neuadd Fawr sydd wedi mynd i Fangor.

Ar y ffordd
Llongyfarchiadau i Tyrone Evans, Tre'r Ddôl, ar basio'i brawf gyrru.

Mae'r papur wedi cael trafferth i ddarganfod olynydd i Lona Mason sydd wedi rhoi'r gorau o fod yn ohebydd Papur Pawb ym mhlwyf Ysgubor-y-coed. Byddem yn falch o glywed am unrhyw un a fyddai â diddordeb mewn ymgymryd â'r gwaith.

Penblwydd Arbennig

Daeth llu o ffrindiau a theulu ynghyd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont yn ddiweddar i ddathlu penblwydd Mrs Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont. Wele'r ddynes ei hun gyda'i merch, Janet a'i hŵyr, Jonathan. Dymuniadau gorau i chi Kathleen.

Dathlu wedi'r Sioe

Cynhaliwyd parti wedi Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn yn y Wild Fowler, Tre'r Ddôl ar yr ail o Fedi. Roedd y noson yn llwyddiant ysgubol gyda dros 150 o bobl yn ei fynychu. Dechreuodd y noson gyda gorymdaith gwisg ffansi a pherfformiad gan The Trill-bies i gau'r noson.

Ar Daith
Croeso adre (am gyfnod o leiaf) i Sam Ebenezer, Maes y Felin sydd wrthi'n brysur yn diddanu plant Cymru fel rhan o daith Sbri-di-ri yr Urdd. Yn anffodus, bydd yn gorfod ffarwelio â ni cyn bo hir i gychwyn ar ymarferion a gyfer pantomeim Aladdin yn Basingstoke.

Ymddeoliad
Llongyfarchiadau i John Foster, Bristol House, Tal-y-bont ar achlysur ei ymddeoliad ddiwedd mis Medi. Dymunwn ymddeoliad dedwydd iddo.

Brysia wella
Dymunwn adferiad buan i Steve Taylor, Pant-y-calch, Tal-y-bont a gafodd strôc pan oedd yn Llundain yn ddiweddar. Dychwelodd i Ysbyty Bronglais ar ôl sbel yn yr ysbyty yn Llundain, a braf yw cael gwybod ei fod e adre erbyn hyn.

Cartref newydd
Pob lwc i Emma a Steve, Wesley Terrace, Taliesin sy'n symud dros y ffordd i'r Gorlan. Gobeithio y byddan nhw a'r ci bach yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

Rygbi
Llongyfarchiadau i Connor Byrne, Tre'r Ddôl, ar gael ei ddewis i gynrychioli Ceredigion mewn rygbi dan 15 oed.

Llongyfarchiadau a gwellhad buan
Mae'r mis diwethaf wedi bod yn gyfnod chwerw felys i Henry Lamb, Glandŵr, Tal-y-bont. Dathlodd benblwydd arbennig ac yna derbyn llawdriniaeth a chael clun newydd yn anrheg!

Swyddi newydd
Llongyfarchiadau i Elis Ifan, Llys Alaw ac Eilir Huws, Henllan ar eu swyddi newydd, y naill gyda Network Rail a'r llall gyda chwmni cyfreithiol yng Nghaerdydd.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Lucy Thomas a Mark Painter, Maesglas, Tal-y-bont ar enedigaeth eu mab cyntaf, Osian Elidir Painter, ar 13 Medi. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Bryn, Tal-y-bont

Annwyl ffrindiau

Diolch yn fawr iawn am y llu o gardiau, galwadau a dymuniadau da ar achlysur fy mhenblwydd yn 90 yn ddiweddar. Diolch hefyd i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob cymwynas.

Kathleen Richards

Ysgol Tal-y-bont

Cyngor Ysgol

Tîm Hoci'r Ysgol



Llysgenhadon yr Ysgol

Coginio

Siarter Iaith

Llysgenhadon Efydd

Aduniad Côr Merched Ceulan

Ar nos Fercher 6 Medi yng Ngwesty'r Llew Du yn Nhal-y-bont daeth 38 o gyn-aelodau'r côr ynghyd, a hynny am y tro cyntaf ers 2001. Cafwyd noson hwyliog o ganu, penillion doniol gan Louisa Phillips a chyfarchiad hyfryd a theimladwy ar ffurf llythyr gan sylfaenydd y côr sef Eleri Huws. Derbyniodd Eirwen Hughes, arweinydd y côr am 13 o flynyddoedd, dlws arian ac ambr yn anrheg gyda diolch am ei gwasanaeth. Trefnwyd yr aduniad gan Non Griffiths, Mair Nutting ac Elizabeth Wyn.

Ysgol Tal-y-bont

Newid staff

Ar ddechrau mis Medi, bu'n rhaid i ni ffarwelio â Miss Lois sydd bellach yn dilyn cwrs ôl-radd ym Mhrifysgol Bangor. Pob lwc i chi a phob hwyl gyda'r astudio!

Croeso cynnes i Miss Shiona a Miss Watkin atom yma yn yr ysgol. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau eich cyfnod yn Ysgol Tal-y-bont.

Siarter Iaith

Fel rhan o raglen yr ysgol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg roedd hi'n hyfryd i groesawu Mair Tomos Ifans atom am y dydd. Bu Mair yn gweithio'n galed gyda phob dosbarth i ddysgu gemau buarth. Roedd hi'n hwyl i ddysgu a chwarae gemau hen a newydd. Diolch yn fawr am ddiwrnod arbennig.

Ysgol Iach

Mae'r tymor rygbi wedi dechrau gyda ni yma yn yr ysgol. Tro plant y Dosbarth Derbyn oedd hi gyntaf i ddysgu sgiliau newydd. Diolch yn fawr i Ifan o Ysgol Penweddig am ei waith gyda ni.

Mae tîm hoci'r ysgol wedi cael dechrau da i'r tymor newydd – chwarae dwy a dwy gêm gyfartal. Diolch yn fawr i'r rhai sy'n cynorthwyo gyda'r hyfforddi a'r cefnogi.

Ysgol Greadigol

Roedd hi'n hyfryd i ymuno gyda phlant Ysgol Craig yr Wylfa yn ystod y mis i wylio "Nid Fi", drama newydd Cwmni Theatr Arad Goch. Roedd hi'n ddrama bwerus am fwlio mewn ysgolion gyda'r actorion ifanc yn perfformio eu rhannau'n egnïol iawn. Cynhaliwyd gweithdy buddiol gyda'r plant wedi'r perfformiad lle cafwyd trafodaeth agored am effaith bwlio ar blant. Diolch yn fawr am y negeseuon pwrpasol.

Coginio

Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod wrthi'n brysur yn dysgu coginio yn ystod y mis. Yn gyntaf, coginiwyd cacen flasus ac i ddathlu Rosh Hashanah, blwyddyn newydd yr Iddewon, buodd y plant yn coginio gyda mêl.

Pontio

Yn ystod y mis, cafodd Blwyddyn 6 gyfle i fynd ar wibdaith i Ysgol Penweddig am y dydd. Roedd yn brofiad da i fynd o gwmpas yr ysgol a chael rhai gwersi er mwyn paratoi ar gyfer yr Ysgol Uwchradd.

Pwyllgorau'r Ysgol

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am gael eu hethol i gynrychioli'r ysgol:

Cyngor Ysgol:
Miri, Efa, Glain, Caoimhe, Tyler, Osian, Ela, Cian, Hedydd

Llysgenhadon yr Ysgol:
Miri, Ellie

Llysgenhadon Efydd:
Efa, Iestyn

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN
Pencefen ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch

Wedi saib dros yr haf daeth yn amser i'r gangen ddod ynghyd unwaith eto. Mae'r aelodau wedi trefnu rhaglen amrywiol a diddorol ar gyfer y tymor newydd, a braf fyddai croesawu aelodau newydd i'r gangen – beth amdani ferched?

Deuawd hynod o gerddorol oedd ein gwestai ar Nos Lun 25 Medi sef Clare Jones, cantores a ffidlwraig sy'n byw yn Ffwrnais ac Edryd Williams, o Fethel ger Y Bala. Enillodd Edryd Wobr Goffa Lady Herbert Lewis yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, a hynny am yr eildro!

Roedd eu rhaglen yn cynnwys unawdau a deuawdau o ganeuon gwerin gyda Clare yn cyfeilio ar y ffidil o bryd i'w gilydd. Clywyd yr hen ffefrynnau megis Lisa Lân, Bugeilio'r Gwenith Gwyn a'r Eneth gad ei gwrthod a daeth yn amlwg yn fuan iawn pam yr enillodd Edryd y wobr.

Yn ystod y noson daeth cais gan Edryd am eiriau Cymraeg i'r gân a oedd yn cael ei chanu'n aml gan David Lloyd sef *'My Little Welsh Home'*. Gan nad oedd yr un o'r aelodau'n gallu ei helpu dyma gais felly i chi ddarllenwyr Papur Pawb! A wyddoch chi os oes cyfieithiad o'r gân honno ar gael? Cysyllter â Fal Jenkins os gwelwch yn dda.

Daeth y noson i ben gyda phaned a chacen neu ddwy!

Capel Bethesda Tynant

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch capel Bethesda Tynant ar brynhawn Sul, 24 Medi. Roedd y gwasanaeth dan ofal Beti Griffiths, Llanilar, a braf oedd gweld nifer o ffrindiau wedi ymuno â'r gynulleidfa. Cafwyd darlleniad i ddechrau'r gwasanaeth, a hefyd ddeuawd gan Isaac ac Efan, a chân gan Efan. Roedd yr oedfa yn glo arbennig i raglen capel Bethesda am eleni.

Cymdeithas Y Chwiorydd, Rehoboth

Ar gychwyn tymor newydd ar brynhawn Mawrth, 12 Medi yn festri capel Rehoboth, Taliesin, croesawyd Naomi Jones sy'n gweithio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i roi sgwrs ar 'Hedd Wyn a'r Ysgwrn'. Ers i Awdurdod y Parc brynu fferm yr Ysgwrn yn 2012 cafodd yr adeiladau eu hadnewyddu, ac agorwyd y ganolfan ar ei newydd wedd yn gynharach eleni. Mae'r ganolfan yn fodd i gadw'r drws yn agored i ymwelwyr ac i gadw'r cof am Hedd Wyn yn fyw. Diolchwyd i Naomi am sgwrs ddifyr iawn, ac ar y diwedd mwynhawyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Myfanwy Rowlands a Mai Leeding.

Y LLEW GWYN
TAL-Y-BONT
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Meinciau Newydd
Adroddodd y Clerc ei bod wedi archebu un fainc picnic, a dwy fainc ar gyfer pentref Tal-y-bont. Nododd bod John Dewi Evans wedi cytuno i osod y meinciau yn ystod yr wythnosau nesaf. Fel y cytunwyd eisoes, bydd y fainc picnic yn cael ei osod yng nghoedwig Allt y Crib, ac fe fydd un o'r ddwy fainc yn cael ei osod dros y ffordd o Hair by Richard. Parthed y fainc a gytunwyd i osod wrth y ffald, Penpompren, fe nodwyd y posibilrwydd nad oedd digon o le i osod y fainc yn y man hwn. Fe'i cytunwyd i osod y fainc wrth y bont bren, ger Glan Ceulan, os nad yw'r lleoliad wrth y ffald yn ddelfrydol.

Gosod Biniau
Adroddodd y Clerc fod tri bin wedi cael ei archebu ac yn barod i'w osod. Nododd hefyd fod adran Gwastraff ac Ail-gylchu, Gwasanaethau Technegol y Cyngor Sir, wedi danfon sticeri i'w osod ar y biniau sy'n dynodi fod modd gwaredu ar faw cŵn ynddynt. Cytunwyd i ofyn i John Dewi Evans i'w osod: un ger Dôl Pistyll; un wrth Garnwern ar y troad i Faes y Felin; ag un mawr wrth fynedfa'r Fynwent gyhoeddus.

Prosiect Archwilio: Baw Cŵn
Fel y crybwyllwyd yn adroddiad mis Medi, mae'r Cyngor wedi derbyn y cyfle i fod yn rhan o brosiect sydd am gymryd profion pridd mewn ardaloedd lle mae baw cŵn yn peri problemau. Diben y prosiect yw profi'r samplai pridd am yr haint Toxocara Canis sydd yn gallu bod yn bresennol mewn baw cŵn. Mae'r haint yn gallu effeithio ar blant, pobl hawdd ei chlwyfo, yn ogystal â chŵn sy'n dod mewn i gyswllt ag unrhyw beth sydd wedi'i heintio. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ar ddiwedd mis Awst gan Gymdeithas Gymunedol Waunfawr yn galw ar gynghorau cymuned ardal Aberystwyth i fod yn rhan o'r prosiect yma, y bydd yn cael ei rhedeg gan Brifysgol Aberystwyth.

Gofynnodd y Cyngor am enwebiadau gan y cyhoedd o lefydd penodol lle mae ffowlio cŵn yn wael yn y plwyf. Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw enwebiad. Yn ogystal, yn dilyn cylch gerdded helaeth, ni ddarganfuwyd y Cyngor unrhyw faw gweladwy. Tyb y Cyngor oedd bod gwellhad mawr yn ddiweddar, a gan hynny ni fyddai'n addas i'r Cyngor gymryd rhan yn y prosiect.

Os wyddech am unrhyw ardal lle mae ffowlio cŵn yn arbennig o wael, a fyddech cystal â chysylltu gyda'r cyngor ar frys: cyngorcam@gmail.com. Os oes gwir broblem, mi all y Cyngor ail-ystyried cymryd rhan yn y brosiect.

Canlyniad Archwiliad 2016-17
Adroddodd y Clerc fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyflwyno adroddiad archwilio diamod i Gyngor Ceulanamaesmawr.

Terfyn Cyflymder, Bont-goch
Derbyniwyd llythyr wrth aelod o gymuned Bont-goch, yn nodi pryder fod terfyn cyflymder y pentref yn llawer rhy uchel (60 m.y.a.), yn arbennig wrth ystyried nad oes palmentydd, a bod parc chwarae i blant wrth ymyl ffordd. Fe gytunodd y Cyngor i ysgrifennu at y Cyngor Sir yn gofyn a fyddai modd gostwng y terfyn cyflymder yn y pentref. Derbyniwyd ymateb wrth Uwch Beiriannydd Rheolaeth Draffig, Cyngor Sir Ceredigion, yn nodi ei bod wedi cynnwys Bont-goch yn yr adolygiad o derfynau cyflymder ar ffyrdd sirol a gwblhawyd yn ddiweddar. Yn anffodus, nid oedd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran y terfyn cyflymder cenedlaethol, yn bennaf gan nad oes yno res ddi-dor o adeiladau ar ymyl y ffordd, sy'n golygu nad oes dim i awgrymu i yrwyr fod angen terfyn cyflymder is. Nodwyd fod y Cyngor Sir yn bwriadu adolygu terfynau cyflymder eto yn 2019, ac y byddent yn cynnwys Bont-goch unwaith eto.

Cymdeithas Cyfeillgarwch Aberystwyth-Yosano

Ffurfiwyd y gymdeithas yn 1996, gan garcharor rhyfel o Lambed, Frank Evans. Cafodd ei garcharu yn Siapan a dychwelodd i Dalybont wedi hynny. Roedd yn awyddus i gryfhau'r cysylltiad rhwng y 2 wlad, yn benodol rhwng Aberystwyth a Yosano (Kaya gynt), lle cafodd ei garcharu. Ewyllysioddei arian i ffurfio'r Gymdeithas, gyda'r nod o sefydlu teithiau cyfnewid rhwng plant y 2 ardal. Mae 6 ohonom wedi bod yn ddigon ffodus i gael ein dewis i fynd ar y daith nesaf i Yosano, ym mis Chwefror. Ein bwriad yw codi arian i sicrhau bod y teithiau yma'n parhau fel bod mwy o blant yn cael yr un cyfle. Mi fydd rhan o'r arian yn cael ei ddefnyddio i helpu ni a'n costau teithio a llety a'r gweddill i groesawu Siapaneaid yn ôl i Gymru ymhen 2 flynedd.

Rydym wedi cynnal nifer o weithgareddau dros y misoedd diwethaf gan gynnwys stondin yn Sioe Tal-y-bont, sêl cist car, taith gerdded, pacio bagiau a'r weithgaredd ddiweddaraf oedd bore coffi. Cynhaliwyd y bore ar Ddydd Sadwrn y 7fed o Hydref yn y Neuadd Goffa ac rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth y gymuned.

Am unrhyw wybodaeth pellach, cysylltwch â Betsan (Betsanelenid@gmail.com). Mi fyddem yn hynod o ddiolchgar am eich cefnogaeth.

Betsan Siencyn a Siôn Nelmes

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM

TEIARS HUW LEWIS TYRES
Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

CFfI Tal-y-bont

Ac i ffwrdd a ni! Blwyddyn arall wedi dechrau, ac am ddechreuad cawson ni wrth i ni groesawu Ifor Morgan, gan gynnal sosial fach i agor drysau'r clwb i'n haelodau newydd. Gwelwyd 40 o aelodau yn gwasgu i mewn i'r neuadd waelod yn Nhalybont i fwynhau gemau llawn egni a chyffro. Mae Ifor yn wyneb cyfarwydd iawn i'r clwb ac rydym yn diolch yn fawr iawn iddo am lywio noson wych.

Bu 2016/17 yn flwyddyn lwyddiannus iawn i CFfI Tal-y-bont a'r cylch ac mae un cwpan arall wedi ein cyrraedd i goroni'r flwyddyn. Enillodd y clwb gwpan am y cynnydd mwyaf mewn aelodaeth am y flwyddyn 2016/17 gyda chodiad o 26%. Mae hwn yn adlewyrchiad o'r brwdfrydedd sydd yn y clwb ar hyn o bryd ac fe fyddwn yn parhau i weithio'n galed am y flwyddyn sydd i ddod, gyda'r Diwrnod Maes a fydd yn cael ei gynnal ym Mart Tregaron ar y 7fed o Hydref. Pob lwc i bawb a fydd yn cystadlu.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymaelodi, neu eisiau cadw i fyny gyda'n hanes gallwch ymuno â ni ar ein grŵp Facebook 'CFfI Talybont' neu ein dilyn ar Trydar 'CffITalybont' neu gysylltu gyda'n swyddogion am eleni:

Cadeirydd: Rhydian Evans, Neuaddfawr (07709 851213);
Ysgrifennydd: Richard John Jenkins, Ynysgreigiog (07530 966196);
Trysorydd: Teleri Morgan, Pwllglas.

Tri chopa - Tair gwlad - Tri diwrnod!!!

Pa ffordd well i dreulio tridiau na'n dringo mynyddoedd ucha' Cymru (Yr Wyddfa 1085m), Lloegr (Scafell Pike 978m) a'r Alban (Ben Nevis 1345m)? Dyna wnaeth Eifion, Rhian a fi gyda'n cyfeillion Owen Burt a John Draper yn ddiweddar.

Er mai Scafell Pike oedd yr un byraf o'r tri chopa roedd y trywydd o Borrowdale yn eitha heriol a hir gan nad oedd y llwybr mor amlwg ac ar y ddau fynydd arall gyda pheth dringo'n cael ei wneud wrth gropian fyny llechweddi o gerrig mân a rhydd. Roedd yn eitha teimlad bod ar ben Ben Nevis gan feddwl mai ni oedd y bobl oedd ucha unrhywle ar diroedd Prydain ac yn edrych lawr, yn llythrennol, ar weddill y boblogaeth!

Buom yn ffodus iawn o'r tywydd gan iddi aros yn sych am y rhan fwyaf o'r cerdded ar Ben Nevis a Scafell Pike ond newid wnaeth pethe tra'n cerdded llwybr Cwellyn fyny'r Wyddfa gan iddi fod yn wyntog a gwlyb tu hwnt! Gwelwyd fawr o olygfa o'r un copa ond roedd y teimlad o fod wedi cyflawni rhywbeth fel tîm yn fwy na gwneud i fyny am hynny.

Roedd maint a graddfa ucheldir yr Alban yn drawiadol tra fod Ardal y Llynnoedd yn bert ofnadwy ond does dim curo Cymru fach. Mae Eryri wir yn syfrdanol a thrawiadol beth bynnag yw'r tywydd neu dymor!

Yn ogystal â'r cerdded, roedd y teithio rhwng y mynyddoedd yn dipyn o her yn ei hunan ond cafwyd digon o amser i fwynhau cymdeithasu a diod neu ddau wrth aros mewn hosteli yn Ardal y Llynnoedd ac Eryri. Roedd aros yn hosteli yn gyfle gwych i drafod gydag eraill a oedd yn ymgymryd â gweithgareddau tebyg ac i rannu straeon a phrofiadau.Wedi dweud hyn, o ystyried bod yr ieuengaf ohonom yn 38 mlwydd oed, debyg fod angen 'chydig o hyblygrwydd gan ddefnyddio'r term 'Hostel Ieuenctid'!

Roedd cyflawni'r her yn hyd yn oed fwy melys i Eifion, Rhian a fi gan ystyried ein bod wedi rhoi tro arni dros ddegawd yn ôl. Yn anffodus ar yr achlysur hynny, ar ôl dringo Ben Nevis, ac wedi noswaith go '*wlyb*' yn Kendal, fe wnaetho ni ddringo'r mynydd anghywir yn Ardal y Llynnoedd gan fynd fyny Bowfell yn lle Scafell Pike! Ta waeth am hyn, aethom yn ein blaenau yr un trip i gerdded yr Wyddfa a felly cyflawni Tri Chopa eitha gwahanol ag unigryw!

Tra'n cyflawni'r her yma fe fu trafod brwd am beth i neud nesa' - ymlaen ac i fyny!

Gerwyn Jones

Eglwys St. Pedr, Elerch

Diolchgarwch

Cynhelir cwrdd Diolchgarwch Eglwys St. Pedr, Elerch, ar Ddydd Sul 15 Hydref, gyda'r Parchg Mark Ansell, Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.

Darllenfa

Er i Eglwys Dewi Sant, Talybont, gau yn ddiweddar, mae'r ddarllenfa drawiadol, a gyflwynwyd yn rhodd i'r Eglwys yn 1908 er cof am Mrs Margaret Jones, Penpompren-Uchaf, gan ei meibion, bellach wedi ei gynnig gan y teulu at wasanaeth Eglwys St. Pedr. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt ac mae'r ddarllenfa bellach yn ei lle yn Elerch fel y gwelir yn y llun.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Bistro Gannets
Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Cigydd Porchell
01970 828 447 Pendre, Bow Street
Pa brofiad sy'n well na blasu cigoedd 'Porchell'?

Canlyniadau Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn

LLYSIAU

3 Tatws
1 Mrs Helen Hicks, Tŷ Coch, Llancynfelyn
2 Mrs Helen Hicks
3 Mr Wyn Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddol

4 Sialots
1 Mr Richard H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddol

3 Nionod
1 Mr Richard H Davies
2 David Beale, Frongoch View, Tre'r Ddol
3 Mr Phil Regan, Free Trade Hall, Taliesin

3 Betys
1 Mr Phil Regan
2 Mr Huw Evans, Coed Yr Eos, Taliesin

3 Cennin
1 Mrs Helen Hicks
2 Mr Phil Regan

4 Ffa Dringo
1 David Beale
2 Mr Richard H Davies
3 Mr Richard H Davies

4 Ffa Frengig
1 Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llancynfelyn
2 Ms Gillian Jones, Blaenddol, Tre'r Ddol
3 Mr Phil Regan

2 Ciwcymbr
1 Mr Wyn Griffiths
2 Mr Iori Jones, Gerynant, Tre'r Ddol
3 Mr Phil Regan

4 Tomatos Mawr
1 Mr Richard H Davies
2 Mrs Valerie Walsh, Plas Penrhyn, Tre'r Ddol
3 Mr Richard H Davies

3 Tshilis
1 Mr Richard H Davies
2 Mr Richard H Davies
3 Mr Phil Regan

3 Corbwmpenni
1 Mr Phil Regan
2 Mr Richard H Davies
3 Mr Richard Spencer

2 Maros
1 Mrs Helen Hicks
2 Mrs Helen Hicks
3 Mr Richard Spencer

3 Panasen
1 Mr Richard H Davies

Blwch/hanbwrth o lysiau cymysg
1 Mr Richard H Davies
2 Mr Phil Regan

Bwnsiaid o berlysiau cymysg
1 Mrs Helen Hicks
2 Mrs Juliet Regan, Free Trade Hall, Taliesin
3 Ms Gwenn Le Helloco, Al Liorzh,Tre'r Ddol

Y Ffa Hiraf
1 Mr Phil Regan
2 Mr Richard H Davies
3 Mr Paul Fleming, Pen Y Graig, Tre'r Ddol

2 O unrhyw lysieuyn heb ei restri uchod
1 Mr Richard Spencer
2 Mr Richard H Davies
3 Mr Wyn Griffiths

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Mr Richard H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddol

Arddangosfa orau yn yr adran - Mrs Helen Hicks, Tŷ Coch, Llancynfelyn

FFRWYTHAU

3 Afal Coginio
1 Mr Iori Jones, Gerynant, Tre'r Ddol
2 Mrs Juliet Regan
3 Mr Iori Jones

3 Afal Pwdin
1 Mrs Mai Leeding, Glannant, Taliesin
2 Mr Huw Evans
3 Mr Richard H Davies

6 Eirin Sbaen
1 Mrs Gillian Jones
2 Ms Michelle Leslie, Llys Cynfelyn, Taliesin
3 Mr Nigel Callaghan, Hafan, Taliesin

3 Coesyn Riwbob
1 Mrs Helen Hicks
2 Mitchell
3 Mr Richard Spencer

3 Gellyg
1 Mrs Mai Leeding
2 Mr Huw Evans

Ffrwythau Cymysg Mewn Basged Bach
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mrs Juliet Regan

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Mrs Mai Leeding, Glannant, Taliesin

Arddangosfa orau yn yr adran - Mrs Mai Leeding, Glannant, Taliesin

CYFEITHIAU

Jar o Jam
1 Mrs Valerie Walsh
2 Ms Susan Peterson, Awel Y Gors, Llancynfelyn
3 Mrs Juliet Regan

Jar o Jeli Ffrwyth
1 Mrs Juliet Regan
2 Mrs Juliet Regan
3 Mrs Eiriona Metcalf, Nirvana, Taliesin

Jar o Sytni
1 Mrs Eiriona Metcalf
2 Mrs Valerie Walsh
3 Mrs Valerie Walsh

Jar o Farmaled
1 Mrs Valerie Walsh
2 Ms Elaine Antwis,Treetops, Llancynfelyn
3 Mrs Juliet Regan

Jar o Geuled Ffrwythau
1 Mrs Val Mayhew, Suncot, Taliesin
2 Mrs Sharon Lewis, York House, Tre'r Ddol
3 Ms Jane Pugh, Glanrhyd, Taliesin

Jar o Bicls
1 Mr Richard H Davies
2 Mr Richard H Davies
3 Mrs Juliet Regan

Jar o Gyffaith Anghyffredin
1 Mr Richard H Davies
2 Mrs Helen Hicks
3 Mrs Helen Hicks

Jar o Jeli Mint
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mrs Eiriona Metcalf
3 Mrs Sharon Lewis

Dosbarth dechreuwyr - Jar o Sytni
1 Mrs Christine Gilbert,
2 Ms Imelda Adams,Tŷ Celyn, Taliesin
3 Ms Lynne Regan, Y Gorwel, Taliesin

Botel o Gordial
1 Ms Susan Peterson
2 Mrs Sharon Lewis
3 Ms Elaine Antwis

Gwirod Ffrwyth
1 Ms Lynne Regan
2 Mr Huw Evans
3 Innes Herron & Helen Ovens

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Mrs Valerie Walsh, Plas Penrhyn, Tre'r Ddol

Arddangosfa orau yn yr adran - Mr Richard H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddol

COGINIO

Cacen Fictoria
1 Mrs Meinir Fleming, Pen Y graig, Tre'r Ddol
2 Mrs Valerie Walsh
3 Ms Elaine Antwis

Fy Hoff Gacen
1 Mrs Glen Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddol
2 Mrs Christine Gilbert
3 Ms Susan Peterson

4 Cup Cakes
1 Mrs Glen Griffiths
2 Mrs Glen Griffiths

Bara Brith
1 Mrs Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r Ddol
2 Mrs Meinir Fleming
3 Ms Wendy James, Wenoth, Tre'r Ddol

Cacen yn Crffori Llysieuyn
1 Mrs Ann Mitchell
2 Mrs Christine Gilbert
3 Mrs Glen Griffiths

4 Scons Caws
1 Mrs Val Mayhew
2 Mrs Glen Griffiths
3 Mrs Meinir Fleming

4 Pice Ar Y Maen
1 Mrs Glen Griffiths
2 Mrs Sharon Lewis
3 Mrs Linda Hicks, Lynafon, Tre'r Ddol

Torth fach frown
1 Mrs Sharon Lewis
2 Mr Wyn Griffiths
3 Mr Wyn Griffiths

Bara wedi i flasu - Melys neu Sawrus
1 Mrs Sharon Lewis
2 Ms Helen Ovens
3 Mr Wyn Griffiths

Tarten Lemwn Meringue
1 Mrs Meinir Fleming
2 Mrs Valerie Walsh
3 Ms Wendy James

4 o Biscedi Shortbread
1 Mrs Linda Hicks
2 Ms Wendy James
3 Mrs Glen Griffiths

Cacen I ddynion yn unig - Cacen Sinsir
1 Mr Richard Spencer
2 Mr Luke Jones, Blaenddol, Tre'r ddol
3 Mr Wyn Griffiths

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran: Mrs Meinir Fleming, Pen y graig, Tre'r Ddol ac Mrs Glen Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddol

CYNNYRCH FFERM

3 Wyau Brown
1 Ms Gwenn Le Helloco, Alliorzh, Tre'r Ddol
2 Mrs Meinir Fleming
3 Mrs Gillian Jones

3 Wyau Gwyn
1 Mrs Jill South,Glynhelyg, Taliesin
2 Ms Gwenn Le Helloco

3 Wyau Arlliwiedig
1 Mrs Helen Hicks
2 Mrs Meinir Fleming
3 Iwan Foster - Leslie, Llys Cynfelyn, Taliesin

3 Wy o wahanol liw
1 Iwan Foster - Leslie
2 Mrs Gillian Jones, Blaenddol, Tre'r Ddol
3 Ms Gwenn Le Helloco

Botel o Fêl clir
1 Innes Herron & Helen Ovens, Crud Yr Awel, Taliesin
2 Mitchell
3 Mr Richard Spencer

Disggyl fach o Bate
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mrs Meinir Fleming
3 Ms Gwenn Le Helloco

Colslo - unrhyw fath
1 Mitchell
2 Ms Wendy James
3 Mrs Linda Hicks

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Ms Gwenn Le Helloco, Al Lliorzh,Tre'r Ddol

BLODAU

5 Coesyn Unigol - Cymysg
1 Mrs Carys Briddon
2 Ms Valerie Walsh
3 Mrs Carys Briddon

3 Coesynunigol-yr un math o flodyn
1 Mrs Jan Nowak, Banc Y Deri, Tre'r Ddol
2 Ms Gwenn Le Helloco
3 Mrs Meinir Fleming

Planhigyn Tŷ mewn pot - y deiliant
1 Innes Herron & Helen Ovens
2 Ms Gwenn Le Helloco
3 Mrs Jan Nowak

Planhigyn Tŷ mewn pot,yn ei flodau
1 Mrs Christine Gilbert
2 Ms Gwenn Le Helloco
3 Mrs Shelly Foulkes, Voelas Villa, Taliesin

Cactws neu Blanhigyn Suddion mewn pot
1 Mr Richard Spencer
2 Ms Gwenn Le Helloco
3 Sharon Lewis

Potyn neu bocs ffenestr wedi ei blannu
1 Jane Pugh
2 Mrs Shelly Foulkes
3 Ms Gwenn Le Helloco

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Ms Gwenn Le Helloco, Al Liorzh,Tre'r Ddol

Arddangosfa orau yn yr adran - Mr Richard Spencer, Tŷ Manceinion, Taliesin

CELF FLODAU

Pinc a Gwyrdd
1 Mrs Christine Gilbert
2 Mrs Glen Griffiths
3 Miss Fion Hicks, Tŷ Coch, Llancynfelyn

Trefniant i ganol bwrdd yn cynnwys cannwyll
1 Mrs Christine Gilbert
2 Mrs Glen Griffiths
3 Jasmine Foster-Leslie, Llys Cynfelyn, Taliesin

Addurniad mewn cragen
1 Mrs Chris Gilbert
2 Mrs Glen Griffiths
3 Jasmine Foster-Leslie

Dosbarth dechreuwyr - Trefniant mewn jwg bach
1 Mrs Meinir Fleming
2 Mrs Jan Nowak
3 Mrs Jill south

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Mrs Chris Gilbert, Swn y Nant, Tre'r Ddol

Arddangosfa orau yn yr adran - Mrs Chris Gilbert, Swn y Nant, Tre'r Ddol

YR ADRAN BLANT

Cread gwreiddiol mewn Lego - Ysgol Gynradd
1 Gethin Davies, Gwynfryn, Talybont
2 Arthur Hodgson, Tŷ Celyn, Taliesin
3 Hazel Lawton, c/o Tŷ Manceinion, Taliesin

Wy wedi ei addurno - Ysgol Gynradd
1 Oliver Regan, Free Trade Hall, Taliesin
2 Gethin Morehouse, Tŷ Coch, Llancynfelyn
3 Gethin Morehouse, Tŷ Coch, Llancynfelyn

Wy wedi ei addurno - Ysgol Uwchradd
1 Becca Fflur,12 Dol Pistyll, Talybont
2 Jasmine Foster-Leslie, Llys Cynfelyn, Taliesin
3 Fion Hicks

Swiss Roll wedi ei addurno - Ysgol Gynradd
1 Iwan Foster Leslie
2 Oliver Regan
3 Hannah Lawton, c/o Tŷ Manceinion, Taliesin

Swiss Roll wedi ei addurno - Ysgol Uwchradd
1 Becca Fflur
2 Becca Fflur

Gardd ar blât cinio - Ysgol Gynradd
1 Charlie Foulkes, Voelas Villa, Taliesin
2 Abigail Regan, Free Trade Hall, Taliesin
3 Lewys Foulkes, Voelas Villa, Taliesin

Gardd ar blât cinio - Ysgol Uwchradd
1 Fion Hicks
2 Jasmine Foster-Leslie
3 Libby Foulkes, Voelas Villa, Taliesin

4 Bisced unrhyw flas - Ysgol Gynradd
1 Edith Herron, Cryd Yr Awel, taliesin

4 Bisced unrhyw flas - Ysgol Uwchradd
1 Fion Hicks
2 Heledd Davies, Gwynfryn, Talybont
3 Elinor Davies, Gwynfryn, Talybont

Blodyn ar plat - Yn iau na 5 mlwydd oed ar 1af o Medi
1 Hannah Lawton
2 Cadi Lloyd - Williams, Min Y Gors, Taliesin
3 Eric Hodgson, Tŷ Celyn, Taliesin

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran- Becca Fflur, 12 Dol Pistyll, Talybont

CREFFTAU

Cynheswyr arddwrn neu menig heb fysedd - wedi ei gweu neu grosio
1 Mrs Liz Spencer, Tŷ Manceinion, Taliesin
2 Mrs Dot Thomas,Maes Yr Haf, Tre'r Ddol
3 Mrs Anwen Haynes, Y Bwthyn, Taliesin

Cerdyn anrheg - unrhyw gyfrwng
1 Mrs Sylvia Cartwright, 1 The Romans, Taliesin
2 Mrs Glen Griffiths
3 Mrs Glen Griffiths

Tegan - unrhyw gyfrwng, dim mwy na 12" holl ddimensiynau
1 Kath Jones, Gerynant, Tre'r Ddol
2 Kath Jones, Gerynant, Tre'r Ddol
3 Jane Pugh

Bwntin – dim mwy na 3 llath
1 Mrs Sylvia Cartwright
2 Mrs Judith Pearson, Cysgod Y Coed, Tre'r Ddol
3 Linda Hicks

Cerdyn cyfarch
1 Juliet Regan
2 Mrs Sylvia Cartwright
3 Fion Hicks

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Mrs Sylvia Cartwright, 1 The Romans, Taliesin

Arddangosfa orau yn yr adran - Mrs Juliet Regan, Free Trade Hall, Taliesin

FFOTOGRAFFIAETH

Dathliad - Lliw
1 Mr Anthony Jarrett, Oernant, Tre'r Ddol
2 Mrs Juliet Regan
3 Mrs Gillian Jones

Rhaeadr - lliw
1 Mrs Carys Briddon
2 Heledd Davies
3 Mr Anthony Jarrett

Nod tir lleol - du a gwyn
1 Mr Anthony Jarrett
2 Mr Nigel Callaghan
3 Mrs Juliet Regan

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Mrs Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r ddol

Arddangosfa orau yn yr adran - Mr Anthony Jarrett, Oernant Tre'r ddol

ADRAN PLANT

Fy hoff ginio – lliw Ysgol Gynradd
1 Lewys Foulkes
2 Charlie Foulkes

Fy hoff ginio - lliw Ysgol Uwchradd
1 Becca Fflur

Gwyliau'r Hâf - lliw Ysgol Gynradd
1 Kate Indeka, Llwynderi, Tre'r Ddol
2 Lewys Foulkes
3 Alys Jarrrett, Oernant, Tre'r ddol

1 Mollie Jones, Blaenddol, Tre'r ddol
2 Heledd Davies
3 Mollie Jones

Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn

Iwan Foster-Leslie 1af am addurno Swiss roll

Becca Fflur pwyntiau uchaf adran plant uwchradd

Christine Gilbert pwyntiau uchaf am drefnu blodau

Ffion Hicks 1af am 4 bisged

Gethin Davies 1af Lego

Helen Hicks 1af perlysiau a 1af am 3 cenhinen

Meinir Fleming 1af am trefniant blodau mewn jwg

Linda Hicks 1af am shortbread

Richard Spencer 1af am gacen sinsir

Taith Capel Rehoboth

Yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd oedd cyrchfan taith flynyddol aelodau a ffrindiau capel Rehoboth, Taliesin ar ddydd Sadwrn, 9 Medi. Cawsom ein croesawu gan Emma yn y Beudy Llwyd, yr hen feudy sydd wedi ei drawsnewid i fod yn ganolfan i groesawu ymwelwyr. Ar ôl mwynhau paned a chacen yno, dangoswyd ffilm am hanes Hedd Wyn, ei deulu a'r fferm. Ar ôl cerdded at y ffermdy, cawsom ein tywys i'r parlwr lle mae'r Gadair Ddu hardd, a enillwyd yn Eisteddfod Penbedw yn 1917, fel yr unig gelficyn yn yr ystafell i nodi ei phwysigrwydd yn yr hanes trist. Yna aethom i'r gegin gartrefol lle'r oedd tanllwyth o dân yn yr aelwyd a'r ystafell yn llawn o'r dodrefn a oedd yno gan mlynedd a mwy yn ôl. Roedd y Bwtri yn cynnwys yr offer a ddefnyddiai'r gwragedd i wneud ymenyn a lle cedwid y bwyd yn oer ar silffoedd llechen. Roedd y pum cadair arall a enillodd Hedd Wyn mewn gwahanol eisteddfodau yn yr ystafelloedd ar y llofft. Diolch i Emma am ei brwdfrydedd wrth ein tywys, dysgwyd llawer mwy am hanes y bardd a'i deulu yn ystod yr ymweliad. Mae'r Ysgwrn ar ei newydd wedd yn ganolfan werthfawr i gadw mewn cof nid yn unig aberth Hedd Wyn ond y genhedlaeth o ddynion ifainc o Gymru a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr.

Mwynhawyd y golygfeydd godidog wrth deithio yn yr heulwen trwy gwm Prysor tuag at Llyn Celyn a'r Bala lle'r arhoswyd am orig i gael cinio. Yna aethom i ymweld â Byd Mary Jones yn Llanycil ger y Bala, sef y ganolfan i ymwelwyr sy'n adrodd hanes Mary Jones yn cerdded o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala yn 1800 i brynu Beibl gan Thomas Charles. Gwelwyd bedd Thomas Charles ym mynwent yr eglwys.

Arhoswyd yng ngwesty'r Eryrod yn Llanuwchllyn ar y ffordd adre i fwynhau pryd o fwyd blasus, a diolchwyd i Bob Williams am drefnu taith bleserus iawn ar ein cyfer unwaith eto.

Diwrnod Hwyl Cronfa Arthur Wyn

Cynhaliwyd arwerthiant ymhlith nifer o weithgareddau eraill yn y Llew Gwyn i lansio Cronfa Coffa Arthur Wyn. Sefydliwyd y Gronfa gan Kara Wyn Jones a Sam Penfold er cof am eu mab bu farw ym mis Mawrth eleni. Eu gobaith yw cynnig cyfleoedd i blant fwynhau gweithgareddau awyr agored. Daeth nifer dda i gefnogi'r ymgyrch a chodwyd swm sylweddol tuag at y gronfa.

‘Annibynniaeth y bobl’ – Catalwnia, Hydref 2017

Fe fu Fflur Arwel, aelod o staff y Lolfa, yng Nghatalonia yn ystod cyfnod y Refferendwm yno. Dyma hanes ei profiadau cyffrous yno:

Votarem! Votarem!

Roedd bloeddio’r dorf o ‘nghwmpas i yn fyddarol yn don ar ôl ton o gyffro a hyder yn fy ysgubo ymaith.

Am ddeg o’r gloch pob nos byddai trigolion Barcelona yn bloeddio nerth esgyrn eu pennau ‘Fe wnawn ni bleidleisio!’ gan wneud swn mawr o’u cartrefi gyda allweddi, potiau a llestri cegin.

Yno y noson honno yr oeddwn i. Yno, yn sefyll ar strydoedd Barcelona ar noswyl refferendwm annibynniaeth Catalwnia. Roedd rhywbeth yn corddi yn awel gynnes y ddinas gan sibrwd yn dawel fod yma rhywbeth newydd, rhywbeth cyffrous, rhywbeth chwyldroadol ar droed.

‘Hawl democrataidd’

Roedd mwyafrif helaeth dinasyddion Catalwnia yn cefnogi cynnal refferendwm annibyniaeth er mwyn penderfynu dyfodol Catalwnia yn ddemocrataidd. Ond roedd llywodraeth Sbaen wedi gwrthod dod i gytundeb a chynnal trafodaeth o unrhyw fath gyda llywodraeth Catalwnia ar y mater o gynnal refferendwm o dan system gyfreithiol Sbaen.

Roedd Sbaen, felly, yn mynnu fod y refferendwm Hydref y 1af yn ‘anghyfreithlon’ ac roedden nhw’n benderfynol o’i atal.

Yn y diwrnodau cyn y refferendwm bu llywodraeth Sbaen yn bygwth y cyfryngau, anfon yr heddlu i atafaelu miliynau o bapurau pleidleisio, cau tudalen gwefan swyddogol y refferendwm a chynnal cyrch ar bencadlys llywodraeth Catalwnia, gan arestio o leiaf 14 o swyddogion Catalanaidd.

Ond er gwaethaf y tactegau gormesol, roedd Catalwnia a’i phobl yn benderfynol o wireddu eu hawl democrataidd ac i weld y refferendwm yn mynd yn ei blaen.

‘Cydsefyll’

Pan gyhoeddwyd y refferendwm yn swyddogol gan Senedd Catalwnia fe wyddwn yn syth y byddwn yno yn cefnogi. Yn ymgyrchydd eisoes gyda yr European Free Alliance Youth – sef grwp Ewropeaidd ifanc sydd yn ymgyrchu dros hawliau lleiafrifoedd yn Ewrop, roeddwn yn adnabod nifer o Gatalanwyr ifanc yn barod ac yn ysu i fynd draw i’w cefnogi. Dyma oedd fy nyletswydd i, fel Cymraes, fel dinesydd Ewropeaidd ac fel dinesydd rhyngwladol, i deithio draw a chydsefyll ochr yn ochr i amddiffyn hawliau democrataidd fy nghyfoedion.

Teithiodd grwp enfawr ohonom i Gatalwnia - dros ugain o Gymry ifanc o Blaid Ifanc (adain ieuenctid Plaid Cymru) a dros pump ar hugain o bobl ifanc o’n chwaer bleidiau ar draws Ewrop.

‘Hyder ac urddas cyn trais’

Wrth gyraedd y ddinas daeth yn amlwg yn syth fod Barcelona yn ferw o egni a lliw. Ar bob stryd, ym mhob cornel, ar waliau ac ar ben adeiladau roedd baneri serennog Catalwnia yn pefrio law yn llaw a’r sloganau ‘Sí!’, ‘Votarem!’ a ‘Democracia!’ – a phob un yn gweiddi neges o hyder a balchder.

Gan fod Sbaen wedi datgan fod y refferendwm yn ‘anghyfreithlon’ a heddlu y *Guardia Civil* yn fygythiad enfawr roedd cyfrinachedd mawr ynglyn a chynlluniau y refferendwm a lleoliadau y gorsafoedd a deunyddiau pleidleisio.

Ysgolion oedd nifer o’r gorsafoedd pleidleisio. Ar fore’r refferendwm, daeth degau ar ddegau i bob gorsaf bleidleisio ar draws y wlad drwy tywyllwch y bore bach er mwyn gwarchod a diogelu y gorsafoedd ac, i bob pwrpas, amddiffyn democratiaeth.

Toc wedi i’r bleidlais agor am naw o’r gloch, dechreuodd y lluniau cyntaf o’r trais ciaidd gan heddlu Sbaen ddod i’r amlwg. Lluniau o bleidleiswyr yn cael eu curo, eu llusgo, eu taflu, a’u camdrin. Yn geg agored gwelais luniau a fideos o’r *Guardia Civil* yn sathru eu ffordd drwy rhengoedd o bleidleiswyr heddychlon gan ymosod arnynt yn ffiaidd – a hynny dim ond am iddynt fynnu hawl i bleidleisio.

Gwelais orsaf pleidleisio wedi ei distrywio gan y *Guardia Civil* – ei democratiaeth wedi ei rhwygo oddi arni. Gwelais geir tywyll bygythiol heddlu Sbaen yn gwibio o amgylch y ddinas a minnau yn fythol ymwybodol o’u presenoldeb a’u grym treisiol. Gwelais

orsafoedd pleidleisio yn brwydro i aros ar agor er gwaethaf ymosodiadau digidol gwladwriaeth Sbaen.

Gwelais giwiau anferthol o bobl yn aros am eu tro i bleidleisio yn y glaw yn un res hir yn ymestyn yn herfeiddiol ar hyd y strydoedd. Pobl fel ni. Gwrandawais ar y clapio, y bloeddio o lawenydd, a’r llongyfarchiadau wrth i un pleidleiswr arall adael gorsaf wedi bwrw ei bleidlais yn llwyddiannus.

Bûm yn lygad dyst i barch eithriadol wrth i’r ifanc gamu i’r ochr er mwyn caniatau i’r oedrannus bleidleisio yn gyntaf.

Safais law yn llaw i amddiffyn gorsaf pleidleisio rhag fygythiad y *Guardia Civil* mewn undod ac mewn nerth - fy nghorff i gyd yn crynu ond fy osgo yn gadarn ac yn benderfynol. Mae’n rhyfedd y pethau rydych yn ei ddysgu am eich hunain pan ddaw yr awr.

Amddiffynais ddemocratiaeth a’r hawl i hunan benderfyniad.

Clywais dorf yn canu yn ddigymell hen ganeuon Catalaneg. Clywais ‘Votarem’ yn troi yn ‘Hem votat’ - a ‘bydd y strydoedd hyn yn fythol eiddo i ni.’

Safais yno ar sgwar *Plaça de Catalunya* ysgwydd wrth ysgwydd a fy nghyfoedion Ewropeaidd a’r nos i gyd yn fyw dan dân undod a chydsefyll.

Hyd yn oed wedi diwrnod o drais a dwrn gan law wladwriaeth Sbaen, roedd yma gan y Catalanwyr hyder a herfeiddiwch, gwydnwch, dathlu a dawnsio.

Roeddwn yno pan bleidleisiodd 90% - dros ddau filiwn o bobl, dros annibynniaeth. Roeddwn yno pan ddywedodd Pudigemont fod Catalwnia wedi ‘ennill ei hawl i fod yn wladwriaeth annibynnol’.

Mi wn i mi weld gwawrio gwlad newydd sbon – gwlad hyderus, gref, fywiog, ddidwyll. Mi wn y daw dwrn Sbaen i lawr ar y wlad ifanc hon. Ond mi wn hefyd y byddaf yn parhau i gydsefyll gyda’r Catalanwyr tan bod Catalwnia yn cael ei chydnabod a’i sefydlu fel gwladwriaeth weriniaethol annibynnol yng nghalon Ewrop.

Visca Catalunya lliure!

Creu Hanes: Archwilio Eich Archif 2017 yn Archifdy Ceredigion

Awduron, artistiaid, gweuwyr a chogyddion, cyfansoddwyr, crochenwyr, ffotograffwyr... pawb sy’n creu! Fe’ch gwahoddwn i greu rhywbeth mewn ymateb i’r casgliadau yn Archifdy Ceredigion

Hoffem ddathlu wythnos Archwilio Eich Archif eleni gyda phobl sydd wedi ymchwilio i’r casgliadau, eu mwynhau ac ymateb iddynt, a chreu rhywbeth newydd eu hunain.

Nid cystadleuaeth mo hon, ac mae croeso i bawb roi cynnig arni, beth bynnag eu gallu a’u hoedran. P’un a ydych chi’n wneuthurwr proffesiynol neu erioed wedi gwneud dim byd fel hyn o’r blaen, fe fyddai’n wych pe gallech chi ymuno â ni. Wrth ichi ymchwilio, efallai y daw’r awen i gyfansoddi cerdd neu stori fer, neu efallai y darllenwch chi rywbeth sy’n troi’n gân yn eich meddwl, neu gael ysbrydoliaeth i roi cynnig ar rysáit o ganrif arall.

Mae angen ichi greu rhywbeth erbyn 18 Tachwedd, sef dechrau wythnos Archwiliwch Eich Archif. Yn ystod yr wythnos fe gewch chi wahoddiad i ddigwyddiad yn Archifdy Ceredigion lle gallwch arddangos neu berfformio’ch gwaith o flaen cynulleidfa. Am fwy o wybodaeth am yr archifdy, ewch yma www.archifdy-ceredigion.org.uk. Archifdy Ceredigion, Hen Neuadd y Dref, Maes y Frenhines, Aberystwyth SY23 2EB Ffôn: (01970) 633697 E-bost archives@ceredigion.gov.uk

Diwrnod Agored yn Nhynygraig

Yn rhifyn Mai eleni o *Bapur Pawb* cafwyd adroddiad ar yr anrhydedd a ddaeth i ran Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont wrth iddo gael ei ethol yn Llywydd Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig am y flwyddyn 2017-18. Bu gogledd Ceredigion yn enwog erioed am ei gwartheg duon a'i defaid mynydd Cymreig. Y mae Gwilym a'i feibion, Enoc a Dafydd wedi dilyn ôl traed ei dad y diweddar I. R. Jenkins, un o arloeswyr cynnar yr ardal hon. Arloesodd I. R. Jenkins gyda gwella tir mynydd a gwella stoc yn Nhynygraig ers y 1930au. Wrth droi ac ailhadu'r tir fe wellodd safon y borfa a'r cynnyrch. Daeth y teulu i enwogrwydd gyda'u diadell o ddefaid mynydd Cymreig, a'r fuches ddu Gymreig. Rhoddwyd pwyslais mawr ar hunangynhaliaeth a chydweithio agos â natur. Bellach, mae Gwilym ac Ann wedi tynnu allan o'r bartneriaeth gan rannu'r tir a'r stoc rhwng Enoc a Dafydd. Serch hynny, mae'r ddau mor ddiwyd ag erioed ac yn fawr eu sêl dros gadw'r bridiau cynhenid mewn rhifau rhesymol ac sy'n gwbl gartrefol yn eu cynefin naturiol.

Ar y 9fed o Fedi, fel rhan o'i ddyletswyddau Llywyddol, trefnodd Gwilym ac Ann a'r teulu ddiwrnod agored yn Nhynygraig dan nawdd y Gymdeithas. Daeth nifer fawr o bobl yno. Cafwyd paned, a gwrando ar anerchiad o groeso gan Gwilym cyn cychwyn ar yr orymdaith i Gae'r

Arglwyddes. Roedd deg o dractorau a threileri yn ein cario o ffald Tynygraig, yn un confoi hir i fyny heibio Cwmslaid at Fedd Taliesin, gyda'r olygfa fendigedig dros yr afon Ddyfi a mynyddoedd Meirionnydd. Roedd rhes o fyrnau gwellt ar bob treiler a rhwng pump ar hugain a deg ar hugain o bobol yn eistedd arnynt gefn wrth gefn. Ar y daith gwelwyd gyrroedd o wartheg duon yma ac acw, a chafwyd cyfle i'w hastudio'n weddol fanwl yn eu cynefinoedd naturiol. Wedi cyrraedd Cae'r Arglwyddes rhaid oedd troi'n ôl, ond yno eto gwelwyd gyrroedd o wartheg porthiannus ynghyd â diadell o ddefaid mynydd Cymreig. Ar y ffordd yn ôl gwyrodd y confoi i gyfeiriad Blaen-nant cyn troi ac anelu am y banc y tu ôl i Dynygraig. Heb unrhyw amheuaeth, mae'r olygfa ogoneddus o ben y banc wrth edrych i lawr dros bentref Tal-y-bont ac yna dros Gors Fochno i gyfeiriad y môr yn gwbl hudolus. Wedi dychwelyd yn ddiogel i Dynygraig ar ddiwedd taith wefreiddiol a chofiadwy cafodd pawb fwynhau'r bwyd a baratowyd ar ein cyfer. Roedd popeth wedi'i drefnu'n ofalus ac effeithiol, ac mae diolch mawr i Gwilym ac Ann a'r teulu oll am ddiwrnod i'w gofio.

Hefin Llwyd

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

CHWARAEON

Hanner Marathon

Llongyfarchiadau i Marc Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont, ar gwblhau'r râs hanner marathon a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 1 Hydref. Nôd Marc oedd croesi'r llinell derfyn mewn llai na dwy awr ac fe lwyddodd i orffen mewn 1 awr 58 munud 42 eiliad.

Dylan yn chwarae i'r Scarlets

Llongyfarchiadau mawr i Dylan Wyn Benjamin, Cysgod y Crib sydd wedi cael ei ddewis i chwarae i dîm dan 16 Scarlets (Gorllewin).

Clwb Pêl-droed Tal-y-bont

Mae Clwb Pêl-droed Tal-y-bont wedi derbyn nawdd hael iawn gan Garej Davmor a fydd o gymorth mawr wrth i'r clwb geisio goroesi cyfnod anodd o ganlyniad i golli cae pêl-droed Cae'r Odyn Galch. Dyma Steve a Claire Clarke, Garej Davmor, yn cyflwyno siec i Evan Rowlands ar ran y clwb. Hefyd yn y llun mae tri o chwaraewyr y tîm, Barri Southgate, Ows Jones a Brad Dowse.

STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi
Mid Wales REMOVALS
www.midwalesremovals.co.uk
Bocses a bubblewrap ar lein
www.boxshopsuppies.co.uk
Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Llwyddiant i'r Ieuenctid

Cafodd dau o dimau Ieuenctid Tal-y-bont hwyl arni yng Ngŵyl Bêl-droed Gary Pugh gan ennill yn yr adrannau dan 10 a dan 16. Bydd wyth tîm gyda'r Ieuenctid eleni yn cystadlu yng Nghyngrair Ieuenctid Aberystwyth. Dymuniadau da i bob un ohonynt.

Enillwyr dan 10, Tal-y-bont Teirw

Enillwyr dan 16, Tal-y-bont

argraffu da
am bris da
ylolfa
holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolfa.com